Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Osian Jones
Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Plas Coch
Wrecsam
LL11 2BU

28/04/2025

Annwyl Osian Jones

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Plas Coch yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag un argymhelliad o'u harolygiad craidd ym Mehefin 2022. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnydd yr ysgol wrth gyflawni gofynion un flaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y meysydd ffocws hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau, gan gynnwys ymweliadau ar y cyd â'r pennaeth
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion, gan gynnwys ar y cyd ag arweinwyr
- craffu ar ddogfennaeth

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o gynnydd yr ysgol tuag at gyflawni gofynion meysydd ffocws, ac maent yn cydnabod bod ychydig o agweddau y gallent wella ymhellach.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru / For learners, for Wales

Ffocws yr ymweliad

## Annog disgyblion i siarad Cymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol

- Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda’r Gymraeg yn ail iaith iddynt. Dros gyfnod, maent yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau siarad Cymraeg o’u mannau cychwyn.
- Mae ethos Cymreig hyfryd yn treiddio trwy fywyd a gwaith yr ysgol sy’n cyfrannu’n bwrpasol at feithrin balchder cynhenid disgyblion at eu hiaith a’u treftadaeth.
- Mae staff yn arddel yr iaith yn frwd ac mae hyn yn ei dro yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hyder i siarad Cymraeg yn ddigymell yn eu dysgu â’u chwarae. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn sgwrsio’n fyrlymus â’u cyfoedion gan ddefnyddio ystod briodol o ferfau gorchmynnol yn gynyddol hyderus, er enghraifft.
- Mae cyflenwad cyson a phwrpasol o adnoddau ieithyddol ar y waliau dysgu yn yr holl ddosbarthiadau i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau dros gyfnod. Yn ogystal, mae ganddynt fynediad rheolaidd at ystod eang o destunau darllen amrywiol sy’n eu cynorthwyo i ymarfer a chaffael geirfa a phatrymau iaith defnyddiol.
- Mae aelodau’r ‘Llysgenhadon Iaith’ yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau arwain yn aeddfed ac yn cefnogi arweinwyr a staff yn frwd i wella medrau Cymraeg disgyblion. Yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno cynllun bandiau gwyrdd iaith i hybu’r disgyblion i wneud defnydd cyson o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol gan ddathlu hynny, pan fo’n briodol.
- Mae staff yn darparu profiadau creadigol i ddisgyblion ddefnyddio’u Cymraeg yn gyson wrth berfformio mewn ystod o sefyllfaoedd, er enghraifft drwy gystadlu mewn eisteddfodau lleol a rhyngwladol a pherfformio’n rheolaidd yn y gymuned.
- Darperir cyfleoedd bwriadus gan athrawon i gyfoethogi gweithgareddau’r cwricwlwm i ddisgyblion trwy wahodd cyn ddisgybl llwyddiannus ym myd pêl-droed i’r ysgol i rannu ei phrofiad o ddefnyddio’r Gymraeg yn ei maes. Mae’r profiadau gwerthfawr hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o fanteision bod yn ddinasyddion dwyieithog cymwys wrth ystyried gyrfa yn y dyfodol.

## Sicrhau cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn Gymraeg a Saesneg

- Mae staff yn cydweithio’n effeithiol ag ysgolion y dalgylch i fapio’r ffurfiau ysgrifennu’n bwrpasol. Erbyn hyn, mae athrawon yn dilyn cynllun clir a chytunedig er mwyn sicrhau bod disgyblion yn adnabod nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu cyn mynd ati i gynllunio’r hyn y maent am ei ysgrifennu.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd priodol a chyson o'r meini prawf er mwyn gwerthuso eu llwyddiant wrth gyflwyno eu gwaith.
- Mae arweinwyr wedi cydnabod yr angen i ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ail ddrafftio eu gwaith er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd orau eu gallu wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae arweinwyr yn craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd gan adnabod cryfderau yn y ddarpariaeth, safonau'r disgyblion a'r camau nesaf i'w datblygu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6652263

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol